# ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETHWYR I RIENI 2017/18

# ADRODDIAD LLYWODRAETHWYR I RIENI 2017/18

## Llywodraethwyr

Dyma restr o'r aelodau oedd ar y corff llywodraethol yn 2017/18

| AELODAU | CYNRYCHIOLI | HYD AT: |
|---|---|---|
| **Mr Alan Southall**<br>**Cadeirydd** | **Rhieni** | **Medi 2019** |
| **Mrs Helen Barlow**<br>**Is - Gadeirydd** | **Rhieni** | **Medi 2019** |
| **Mr Colin Heath** | **Cynghorydd** | **Medi 2021** |
| **Mrs Allyson Walsh** | **Cyfetholedig** | **Medi 2019** |
| **Mrs Ffion Taylor** | **Cyfetholedig** | **Medi 2019** |
| **Miss Dawn Hughes** | **Staff Ategol** | - |
| **Mrs Julie Williams** | **Athrawon** | - |
| **Miss Lynne Jones** | **Pennaeth** | - |
| **Mr Riley-Walsh** | **Cyngor Cymuned** | **Medi 2021** |
| **Mr Bari Gwiliam** | **Rhieni** | **Medi 2019** |
| **Ms Olwen Hughes** | **Clerc** | - |

## Adroddiad ar weithredu o'r adroddiad olaf

Ni alwyd cyfarfod gyda'r llywodraethwyr gan rieni yn ystod 2017-18
Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r adroddiad blynyddol
Nid oedd eitemau penodol i weithredu arnynt.

## Y Llywodraethwyr

Gweler uchod restr o'r enwau a statws y llywodraethwyr ynghyd a'r dyddiad y daw eu cyfnod i ben.

Mae’r llywodraethwyr ,y corff llawn, wedi cyfarfod yn 4 gwaith y flwyddyn. Cafwyd cyfarfodydd o’r is- baneli Cyllid, Personél , Iechyd a Diogelwch a Safonau yn ystod y flwyddyn yn ogystal. Mae’r pennaeth wedi adrodd yn dymhorol ac yn cynnwys adroddiadau ar Iechyd a diogelwch, rifau a phresenoldeb, materion cwricwlaidd a chanlyniadau, lles, rheolaeth, diogelu staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, gweithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o’r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

## Clerc

Clerc y Corff Llywodraethol yw Mrs Olwen Hughes . Gellir cysylltu â Mrs Olwen Hughes â’r Ysgol. Gellir cysylltu â Chadeirydd y Corff drwy anfon nodyn wedi ei chyfeirio iddo drwy law Clerc y Corff.


## Datganiad Ariannol

Gweler atodiad o gyllideb ddiweddaraf yr ysgol a gwariant Cronfa’r Ysgol.
Cronfa’r Ysgol - Mae’r gronfa wedi ei harchwilio yn unol â’r gofynion.
Rhoddion i’r ysgol: Bu’r gymdeithas rieni yn brysur iawn eto yn casglu arian ar gyfer yr ysgol - hoffai’r llywodraethwyr ddiolch yn fawr i’r rhieni yma ac i bawb a gyfrannodd at eu hymdrechion i gasglu arian. Mae’r ysgol yn gwneud yn fawr o’r cyfraniadau ac yn gwerthfawrogi’r arian ychwanegol yn fawr. Mae ein diolch yn fawr.
Costau Teithio a Chynhaliaeth Llywodraethwyr: £0

## Perfformiad Ysgol Pentraeth Hâf 2018

### Cynfnod Sylfaen Blwyddyn 2


| **CS Blwyddydn 2** | **YSGOL** | |
|---|---|---|
| | **Deilliant** | |
| | **5+** | **6+** |
| **Iaith a chyfathrebu** | **73%** | **26.7** |
| **Datblygiad Mathamategol** | **86.7%** | **13.3** |
| **Datblygiad Personol a Chymdeithasol** | **100%** | **46.7%** |




| | Cy | Sa | Ma | Pe | DCS |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | 73.3 | 0.0 | 86.7 | 100.0 | 73.3 |
| Sir | 79.5 | 81.5 | 86.0 | 93.7 | 78.3 |
| CYNNAL | 82.0 | 79.8 | 86.0 | 93.4 | 80.4 |
| FSM | 81.4 | 92.9 | 86.8 | 93.3 | 81.4 |

## Cyfnod Allweddol 2 -Blwyddyn 6 Hâf 2018

| CA2 | YSGOL | |
|---|---|---|
| | L4 | L5 |
| Cymraeg | 90.09% | 36.4% |
| Saesneg | 90.09% | 27.3% |
| Mathemateg | 90.09% | 27.3% |
| Gwyddoniaeth | 90.9% | 27.3% |




| | Cy | Sa | Ma | Gw | DPC |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | 90.9 | 90.9 | 90.9 | 90.9 | 90.9 |
| Sir | 75.6 | 89.9 | 90.6 | 91.4 | 88.2 |
| CYNNAL | 85.6 | 91.1 | 91.6 | 92.5 | 90.0 |
| FSM | 91.0 | 93.7 | 93.9 | 95.3 | 92.5 |

**Presenoldeb Yr Ysgol 2017/18**

| Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf |
|---|---|---|
| 95.5% | 94.9% | 94.5% |
| Blwyddyn 93.9 % | TARGED 95.5% | Heb gyrraedd y targed |
| Absenoldebau gyda caniatâd 4.2% | | Heb ganiatâd 0.8% |
| Targedau Presenoldeb Tair Blynedd | | |
| 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
| 95.5% | 95.8% | 96% |

**Boddhaol**

**Cysylltiadau a'r Gymuned**

Bu nifer o gysylltiadau gyda'r gymuned yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:
Cefnogi elusennau lleol megis Plant Mewn Angen, Teams for U .
Cyswllt Ysgol Feithrin cyn-ysgol a'r Ysgol Uwchradd
Ymweliadau bugeiliol gan yr heddlu lleol a swyddog 'Schoot Beat'
Ymweliadau gan Y Parchedig Gruff Jones
Paratoi at Eisteddfod yr Urdd
Ymweliadau rheolaidd a'r pentref a'r ardal leol
Cyngerdd blynyddol i'r Gymuned
Ymweliadau â chartrefi'r henoed
Canolfan Conway, Llafairpwll
Cynnig profiad gwaith i ddisgyblion Ysgolion Uwchradd / Prifysgol Bangor
Ceir rhestr lawn o'r ymweliadau a'r ymwelwyr yng nghofnodion llawn y llywodraethwyr ar gael o'r ysgol, yn cylchlythyrau tymhorol ac ar dudalen gweplyfr yr ysgol .

**Csylltiadau gyad Rhieni**

**Bu nifer o gysylltiadau gyda rhieni yn ystod y flwyddn gan gynnwys**

2 noswaith rhieni a cynigwyd 3ydd
cyfarfodydd i rieni a rhieni grwpiau targed:
Dau gyfarfod i rieni newydd
Gweithdy Llythrennedd i rieni Meithrin / Derbyn
Diwrnod Mabolgampau
Clwb coginio i rieni a'u plant
Cyngerdd ysgol
Ceir rhestr lawn o ddigwyddiadau yng nghofnodion llawn y llywodraethwyr ar gael o'r ysgol, yn cylchlythyrau tymhorol ac ar dudalen gweplyfr yr ysgol.

**Targedau 2017/18**

**Blwyddyn 2- 15 yn y fintai 8 o fechgyn a 7 o enethod**

| | D5 | D6 |
|---|---|---|
| Iaith | 73 % | 13.3 % |
| Rhif | 73 % | 13.3 % |
| P+ C | 86.6 % | 13.3% |
| DCS | 73% | |

**Blwyddyn 6 - 9 yn y fintai**

| | L4 | L5 |
|---|---|---|
| Cymraeg | 66.6 % | 22.2 % |
| Saesneg | 77.7% | 22.2 % |
| Mathemateg | 66.6% | 22.2% |
| Gwyddoniaeth | 66.6 | 22.2% |
| DPC | 66.6 % | |

**Nodau a chyflawniad chwaraeon**

Mae'r ysgol yn rhoi bri a statws i amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a gwneir defnydd o'r neuadd, Canolfan Hamdden Amlwch , adnoddau Ysgol David Hughes i gynnig amrediad o chwaraeon. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn sawl twrnament chwaraeon ac mae'r Cyngor chwaraeon yn trefnu gemau cyfeillgar.

**Polisïau a Strategaethau**

Adolygwyd pob polisi blynyddol a rhai yn ogystal a rhai a argymhellir . Mae copïau o'r polisïau ar

gael yn yr ysgol. Mae'n fwriad gan yr ysgol eu rhoi ar safwe'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/19.

**Newidiadau i'r Adeilad**

- Gosodwyd 'shutter' tân mewn argyfwng o flaen y fynedfa i'r gegin
- Paentiwyd toiledau'r Adran Iau
- Cafwyd toiledau newydd ym mlwyddyn 1 a 2
- Ychwanegwyd at arwyddion tân

**Dyddiadau Tymor**
**Gwyliau Ysgol**
**Agorodd yr ysgol i blant ar Ddydd Llun 4 Medi 2017.**

**GWYLIAU:**
30 Hydref – 3 Tachwedd 2017 (Hanner-Tymor)
25 Rhagfyr 2017 - 5 Ionawr 2018 (Gwyliau'r Nadolig)
12 - 16 Chwefror 2018 (Hanner-Tymor)
26 Mawrth 2018 – 6 Ebrill 2018 (Gwyliau'r Pasg)
7 Mai 2018 (Calan Mai)
28 Mai – 1 Mehefin 2018 (Hanner-Tymor)
Ysgol yn cau am wyliau Haf ar Ddydd Gwener 20 Gorffennaf 2018.
Nid yw dyddiadau Blwyddyn Ysgol 2018 – 2019 wedi eu cadarnhau hyd yma.
Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:
MEDI 2017 22
HYDREF 2017 20
TACHWEDD 2017 19
RHAGFYR 2017 16
IONAWR 2018 18
CHWEFROR 2018 15
MAWRTH 2018 17
EBRILL 2018 16
MAI 2018 18
MEHEFIN 2018 20
GORFFENNAF 2018 15
----
195
----
1 Medi 2017 - Diwrnod dan Reolaeth Ysgol
4 diwrnod hyfforddiant a drefnwyd gan yr ysgol yn ystod y flwyddyn:

Hydref 27 Tachwedd 6 Ionawr 8 Chwefror 9

Daeth hyn a'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190

**Newid i Llawlyfr yr Ysgol**

Cyhoeddir llyfryn Gwybodaeth i Rhieni yn flynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Mae copi o'r llyfryn ar wefan yr ysgol bellach gyda chopi papur ar gael yn yr ysgol ar gais rhieni. Ar ddechrau pob blwyddyn addysgol cyflwynir llawlyfr newydd/wedi ei addasu. Fe all eu hysbysu am newidiadau ym mholisïau'r ysgol. Gwnaethpwyd man newidiadau i ffurf a chynnwys y llawlyfr eleni.

**Cwricwlwm**

Fel pob ysgol arall mae Ysgol Cymerau yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac agweddau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae crynodeb o gwricwlwm yr ysgol yn ein llawlyfr ysgol.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol:**
Amcan yr ysgol yw adnabod y plant gyda ADY yn fuan er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth orau a mwyaf cynhwysfawr y gellir ar eu cyfer gan helpu'r disgyblion gyrraedd eu llawn potensial.
I'r perwyl hwn mae Cdu yn cael eu paratoi ar gyfer y plant a byddwn yn adolygu'r rhain gyda'r rhieni. Cyd-gysylltydd ADY Ysgol Cymerau ydi Mrs Julie Williams a Mrs Allyson Walsh yw'r lywodraethwraig sydd yn gyfrifol am ADY.

**Disgyblion Anabl:**
Bydd yr ysgol yn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion sydd ag anableddau . Mae polisïau'r ysgol yn sicrhau na fydd disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill. Mae copïau o'r polisïau ar gael y yr ysgol.

**Catagori Iaith**
Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog.

**Defnydd o'r Gymraeg**

Gymraeg yw prif iaith yr ysgol.
Y Gymraeg yw prif iaith Y Cyfnod Sylfaen – bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu 'trochi' yn yr iaith a buan iawn y dônt i siarad yn rhugl.
Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu yr ysgol. Nod siarter Iaith Ysgolion Cymraeg Gwynedd yw i bob plentyn siarad Cymraeg ar y coridorau ac allan ar yr iard.
Yn unol a Pholisi Iaith Gwynedd addysgir pob plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Saesneg yn cael ei chyflwyno yn anffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yn ffurfiol o Flwyddyn 3 ymlaen. Ein nod yw i bob plentyn fod yn rhugl ddwyieithog yn gadael yr ysgol.
Os bydd plentyn di-gymraeg yn dod i'r ysgol, bydd yn cael ei 'drochi' yn yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen ac yn mynychu yr Uned Iaith yn Moelfre am gyfnod o Dymor yn CA2. Mae'n bosib mynychu rhaglen tymor o loywi iaith yn dibynnu ar argaeledd yn ogystal.

**Toiledau**

Mae toiledau pwrpasol, gan gynnwys toiledau 'bach' yn y Cyfnod Sylfaen - cymhareb tua 1:7
Mae toiledau bechgyn a merched ar wahân yn CA2 – cymhareb tua 1:7
Mae toiledau'r staff yng nghyntedd yr ysgol.
Bydd y toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol.